# Addysg a Gwella Iechyd Cymru— Adolygiad Deallusrwydd Busnes

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4010A2024

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amcan archwilio | 5 |
| Canfyddiadau allweddol | 6 |
| Argymhellion | 8 |

Adroddiad manwl

| | |
|---|---|
| Strategaeth a chynllunio deallusrwydd busnes | 9 |
| Defnyddio deallusrwydd busnes | 12 |
| Trefniadau llywodraethu a monitro deallusrwydd busnes | 14 |

Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1—Dulliau archwilio | 17 |
| Atodiad 2—Cwestiynau a meini prawf archwilio | 19 |
| Atodiad 3—Ymateb y sefydliad i argymhellion | 23 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn GIG Cymru ac mae'n chwarae rhan flaenllaw yn addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru a 't[h]rawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach'. Mae swyddogaeth y gweithlu yn ganolog wrth ddatblygu gofal iechyd cynaliadwy i bobl Cymru yn y dyfodol. Sefydliad Cymru gyfan sy'n cyflogi oddeutu 380 aelod staff sy'n aelodau craidd a 187 aelod staff sesiynol sy'n gweithio i sefydliadau eraill yw AaGIC. Mae cyllideb flynyddol AaGIC yn fwy na £300 miliwn. Mae dros 80% o'i gyllideb yn cael ei gwario ar addysg a hyfforddiant a gweithgareddau cysylltiedig. Mae AaGIC yn cefnogi addysg a hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth eang o broffesiynau iechyd gan gynnwys:

- staff gradd hyfforddiant a meddygon a deintyddion arbenigol cysylltiol;
- fferyllwyr, fferyllwyr dan hyfforddiant, technegwyr fferylliaeth, a hyfforddeion technegwyr fferylliaeth;
- myfyrwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd;
- deintyddion a gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol; ac
- optometryddion.

2 Gan ei fod yn gweithredu fel galluogwr y gweithlu strategol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru, mae gan AaGIC swyddogaeth ganolog wrth gasglu, cynhyrchu a dadansoddi deallusrwydd busnes allweddol, megis data y gweithlu, er mwyn llywio ei weithgareddau. Mae gan AaGIC gyfrifoldebau corfforaethol hefyd, gan gynnwys rheoli perfformiad sefydliadol a chyflawni amcanion strategol[1] sy'n ddibynnol ar wybodaeth a deallusrwydd da.

3 Bydd sicrhau bod gan AaGIC ddeallusrwydd busnes cywir, ei fod yn cael gafael ar hyn, a bod y bobl gywir yn ei ddefnyddio'n effeithiol, yn cefnogi ei allu i gael mewnwelediad. Bydd hefyd yn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol gwybodus, sy'n cefnogi ei fframwaith perfformiad a'r nodau strategol yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Bydd yr holl elfennau hyn yn allweddol i'w alluogi i gyflawni ei weledigaeth o '[d]datblygu gweithlu crefftus a chynaliadwy sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth'.

4 Cafodd cyd-destun ein hadolygiad ar ddull AaGIC o ymdrin â deallusrwydd busnes ei lywio gan yr hyn a ganlyn hefyd:

- lansiad Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu ym mis Ionawr 2023 a sefydliad Bwrdd Gweithredu Strategol ar gyfer y Gweithlu dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Gweithredol y GIG. Mae AaGIC yn gyfrifol am nifer o gamau gweithredu penodol ar gyfer Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu ynghylch deallusrwydd busnes y gweithlu.

[1] Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023–26 yn cynnwys amcanion sefydliadol.

Cylch gwaith strategol eang AaGIC ynghylch deallusrwydd busnes i gefnogi cyrff eraill yng Nghymru, a hefyd i ddeall y cynnydd y mae'n ei wneud ar ei Gynllun Tymor Canolig Integredig.

- rhai o'r heriau y mae AaGIC yn eu hwynebu wrth gasglu a dadansoddi deallusrwydd busnes cadarn, megis data y gweithlu, pan nad yw'n rheolwr ar y data hynny.
- Hunanasesiad AaGIC o'i gymharu â 'Model Aeddfedrwydd Deallusrwydd y Busnes Bwrdd Cynghori', a gwblhaodd ei aeddfedrwydd presennol fel 'Dadansoddeg Dameidiog', sef y cam aeddfedrwydd cyntaf.
- nododd canfyddiadau ein Hasesiad Strwythuredig (2023) fod angen i AaGIC wneud mwy i ddeall yn glir eu heffaith ehangach ar deulu'r GIG ac ar Gymru yn fwy cyffredinol. Bydd dull cadarn o ymdrin â deallusrwydd busnes yn galluogi AaGIC i gael gafael ar ddeallusrwydd cywir, a'i ddadansoddi, i fesur effeithiau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

# Amcan archwilio

5 Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn oedd asesu i ba raddau **y mae gan AaGIC ddull effeithiol o gasglu a defnyddio ei ddeallusrwydd busnes i gefnogi'r broses o gyflawni ei amcanion strategol**. Mae **Atodiad 1** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae **Atodiad 2** yn cynnwys y cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio manwl. Y meysydd allweddol a archwiliwyd gan yr adolygiad oedd i ba raddau y mae:

- gan AaGIC ddealltwriaeth glir o anghenion deallusrwydd busnes dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy, ac mae strategaethau a chynlluniau cadarn ar waith i ddiwallu'r anghenion hyn;
- AaGIC yn defnyddio deallusrwydd busnes yn effeithiol i gefnogi gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau;
- gan AaGIC drefniadau llywodraethu effeithiol a cherrig milltir a thargedau clir ar gyfer goruchwylio a monitro'r cynnydd ar amcanion ac uchelgeisiau deallusrwydd busnes.

# Canfyddiadau allweddol

Ar y cyfan, canfuom **fod dull AaGIC o ddefnyddio deallusrwydd busnes i lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol yn dal i ddatblygu. Er ei fod yn gwneud cynnydd, bydd angen rheolaeth weithredol barhaus ar nifer o risgiau allweddol er mwyn cyflawni nodau deallusrwydd busnes y sefydliad a sicrhau enillion ar y buddsoddiad a wnaed**.

## Strategaeth a chynllunio deallusrwydd busnes

6 **Mae gan AaGIC strategaeth a gweledigaeth glir ar gyfer deallusrwydd busnes, sy'n cael eu tanategu gan gynllunio ar sail anghenion. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf digidol i ddod a heriau ynghylch recriwtio a chadw staff sydd â sgiliau penodol yn parhau i fod yn risgiau allweddol**.

7 Mae gan AaGIC weledigaeth glir ar gyfer deallusrwydd busnes, sy'n rhan annatod o uchelgeisiau strategol ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod AaGIC yn adnewyddu ei 'Drywydd Digidol', sy'n tanategu ei strategaeth Digidol a Data, er mwyn adlewyrchu'r asesiad aeddfedrwydd data annibynnol sy'n mynd rhagddo. Mae AaGIC yn gwella ei ddealltwriaeth o'i ofynion deallusrwydd busnes. Mae hyn yn cael ei fireinio ymhellach drwy ddatblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig eleni ac sy'n cael ei lywio gan asesiadau aeddfedrwydd data a deallusrwydd busnes sy'n mynd rhagddynt.

8 Mae cynllun gweithredu gweithlu cenedlaethol Llywodraeth Cymru[2] yn gatalydd, ac mae sawl cam gweithredu wedi cyflymu gwaith AaGIC ar wella ansawdd data y gweithlu, modelu'r gweithlu a delweddu data. Mae'r tîm gweithredol ac aelodau annibynnol ar y bwrdd yn darparu proffil a chefnogaeth ddigonol ar gyfer datblygiadau deallusrwydd busnes AaGIC.

9 Mae deallusrwydd busnes yn flaenoriaeth glir i AaGIC, sy'n arwain at fwy o fuddsoddiad digidol a data. Er mai canran fach o gyllideb gyffredinol AaGIC yw gwariant digidol a data AaGIC, rydym yn deall y bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, mae prosiectau digidol cyfalaf sy'n disgwyl penderfyniadau yn parhau i fod yn risg.

10 Mae AaGIC yn wynebu risgiau recriwtio a chadw sy'n ymwneud â sgiliau digidol a data arbenigol. Er bod AaGIC wedi cadarnhau bod lefelau staffio presennol yn ddigonol, mae perygl y gellid colli gwybodaeth unigryw a freiniwyd mewn rhai swyddogaethau Digidol a Data. Mae'n cymryd camau i liniaru'r risg hon, fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i nodi swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes ac i ddatblygu cynlluniau olyniaeth.

[2] Llywodraeth Cymru, Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu, Chwefror 2023

## Defnyddio deallusrwydd busnes

11 **Mae defnydd AaGIC o ddeallusrwydd busnes yn datblygu. Mae'n canolbwyntio ar y graddau y mae data gweithlu GIG Cymru ar gael, eu hansawdd a pha mor hygyrch ydynt, gyda'r bwriad o wella'r broses o wneud penderfyniadau sy'n cael eu sbarduno gan ddata**.

12 Mae defnydd AaGIC o ddeallusrwydd busnes i lywio gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau yn datblygu. Mae wedi cyflwyno data busnes sylweddol a datblygiadau dangosfwrdd data yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae AaGIC hefyd yn gweithio i gysoni setiau data â llwybr hyfforddi Education to Employment ac mae'n datblygu modelau data i gefnogi gwaith cynllunio gweithlu a'r broses o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru. O ystyried newydd-deb cymharol y mentrau hyn, dylai AaGIC werthuso effaith ei fuddsoddiad a'i ymdrech ar adegau priodol.

13 Mae AaGIC yn parhau i ddatblygu dewisiadau er mwyn gwella gallu rhanddeiliaid i gael gafael ar ei ddeallusrwydd busnes. Ar hyn o bryd, mae wrthi'n penderfynu ar y ffordd orau o rannu gwybodaeth gan barchu cyfrinachedd masnachol. Mae AaGIC hefyd yn buddsoddi mewn datblygu galluoedd 'defnyddiwr data', sefydlu rhwydwaith hyrwyddwyr digidol mewnol a datblygu hyfforddiant llythrennedd data ar gyfer ei staff. Mae AaGIC yn gwella ansawdd y data, fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn her oherwydd bod data y gweithlu yn deillio o amrywiaeth o'r GIG a rhanddeiliaid ehangach. Yn nodedig, mae wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ansawdd y data drwy weithio gyda phartneriaid allweddol megis y sefydliadau addysg uwch a'r cyrff iechyd.

## Trefniadau llywodraethu a monitro deallusrwydd busnes

14 **Mae trefniadau llywodraethu AaGIC ar gyfer monitro cynnydd y fenter deallusrwydd busnes yn gwella**.

15 Yn gyffredinol, mae gan AaGIC drefniadau ffurfiol ac anffurfiol da ar gyfer monitro cynnydd ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes. Mae hyn yn darparu fframwaith priodol ar gyfer risgiau deallusrwydd busnes a data allweddol, materion, a chynnydd i'w trafod a'u huwchgyfeirio. Mae adroddiadau AaGIC yn rhoi trosolwg da o'r camau gweithredu a gyflawnir, ond gallai wella sut mae'n adrodd ar y camau sy'n weddill o'u cymharu â cherrig milltir penodol y mae wedi eu pennu. Mae AaGIC yn cymryd camau cadarnhaol i ehangu ei gyfres o fetrigau, a ddylai ei alluogi i ddeall yn well y cynnydd y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, mae ei ddull o ddysgu gwersi yn dal i ddatblygu a bydd yn cael ei lywio ymhellach gan yr asesiad aeddfedrwydd data annibynnol sy'n mynd rhagddo. Bydd angen iddo ymgorffori ymhellach ei ddull o ddysgu gwersi a chipio yn effeithiol y gwahaniaeth y mae ei fuddsoddiad deallusrwydd busnes wedi ei wneud.

# Argymhellion

16 Dengys yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Bydd ymateb rheolwyr AaGIC i'r argymhellion hyn yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 3** ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau yn ei ystyried.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| Argymhellion |
|---|
| **Adnewyddu Trywydd Digidol AaGIC**<br>A1 Dylai AaGIC adolygu Cenhadaeth 4 ei Drywydd Digidol yng ngoleuni unrhyw ganfyddiadau a nodir gan yr asesiad 'ecosystem ddata' annibynnol. Nod yr adolygiad yw asesu ei gynnydd cymharol ers ei hunanasesiad aeddfedrwydd diwethaf a sicrhau bod y camau yn ei Drywydd Digidol yn dal i fod yn addas i'w diben. |
| **Nodi swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes a datblygu cynlluniau olyniaeth**<br>A2 O ystyried y risgiau sylweddol o ran recriwtio a chadw swyddi digidol:<br>a) Dylai AaGIC nodi ei swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd eu hangen i gyflawni Cenhadaeth 4 ei Strategaeth Digidol a Data.<br>b) Pan fo **A2a** wedi ei gwblhau, dylai AaGIC ddatblygu prosesau cynllunio olyniaeth clir ar gyfer y swyddogaethau hyn er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli gwybodaeth sy'n allweddol i fusnes a allai effeithio ar gyflymder y gweithgareddau deallusrwydd busnes a gynllunnir. |
| **Gwella adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd**<br>A3 Dylai adroddiadau AaGIC sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran menter deallusrwydd busnes a data ddarparu cyfrif mwy cynhwysfawr o'r cynnydd, gan nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni, yr hyn sydd ar ôl i'w gwblhau o hyd ac unrhyw effeithiau tebygol ar yr amserlenni gwreiddiol. |
| **Yr effaith sy'n deillio o fuddsoddiad mewn deallusrwydd busnes**<br>A4 Dylai AaGIC ddatblygu dull o werthuso'r gwahaniaeth y mae'r deallusrwydd busnes yn ei wneud i randdeiliaid mewnol ac allanol. Bydd hyn yn galluogi AaGIC i benderfynu a yw ei fuddsoddiad mewn deallusrwydd busnes yn darparu gwerth am arian ac i sicrhau bod unrhyw ddysg yn cael ei defnyddio i wella cyflawniadau deallusrwydd busnes ymhellach. |

# Strategaeth a chynllunio deallusrwydd busnes

17 Wrth ymgymryd â'n gwaith yn AaGIC, gwnaethom ystyried i ba raddau y mae ganddo ddealltwriaeth glir o anghenion deallusrwydd busnes dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy, a strategaethau a chynlluniau cadarn ar waith i ddiwallu'r anghenion hyn. Canfuom yr hyn a ganlyn: **Mae gan AaGIC strategaeth a gweledigaeth glir ar gyfer deallusrwydd busnes, sy'n cael eu tanategu gan gynllunio ar sail anghenion. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf digidol i ddod a heriau ynghylch recriwtio a chadw yn parhau i fod yn risgiau allweddol**.

## Mae gan AaGIC weledigaeth glir ar gyfer deallusrwydd busnes, sy'n rhan annatod o uchelgeisiau strategol ei Gynllun Tymor Canolig Integredig

18 Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023–2027 AaGIC yn cynnwys amcan clir a phenodol i: 'Datblygu, cyhoeddi a gweithredu cynlluniau gweithlu strategol mewn meysydd blaenoriaeth.' Mae AaGIC yn sicrhau ei fod yn galluogi cynlluniau sy'n cefnogi'r broses o gyflawni'r amcan hwn gyda phwyslais clir ar ddefnyddio deallusrwydd busnes i alluogi gwaith cynllunio gweithlu a'r broses o wneud penderfyniadau.

19 Mae 'llinyn euraidd' sy'n gyson â nodau strategol a datblygiadau deallusrwydd busnes. Er enghraifft, mae Strategaeth Digidol a Data 2023–2028 AaGIC[3] yn cynnwys gweledigaeth deallusrwydd busnes tymor canolig clir sy'n cefnogi ei nodau strategol Cynllun Tymor Canolig Integredig. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, mae AaGIC wedi datblygu 'Trywydd Digidol' pum mlynedd sydd wedi ei strwythuro o amgylch pum 'Cenhadaeth' allweddol. Mae un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar wella deallusrwydd busnes. Mae'r 'Cenadaethau' yn cynnwys cerrig milltir clir ar gyfer camau cyflawni penodol sy'n canolbwyntio ar sefydlogi, datblygu, a thyfu ac optimeiddio gwasanaethau deallusrwydd digidol a busnes. Mae AaGIC wedi sicrhau bod y cynlluniau strategol hyn yn cael eu tanategu'n briodol gan gynlluniau tîm unigol sy'n cynnwys y manylion gweithredol ar gyfer sut y bydd yn cyflawni ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes.

20 Yn gynnar yn 2023, defnyddiodd AaGIC fodel aeddfedrwydd deallusrwydd busnes 'Byrddau Cynghori[4]' yn sail ar gyfer hunanasesu. Arweiniodd hyn at AaGIC yn pennu ei aeddfedrwydd fel 'Dadansoddeg Dameidiog', sef yr isaf o bedwar cam fframwaith aeddfedrwydd y model. Ar hyn o bryd mae AaGIC yn cymryd rhan

[3] Strategaeth Digidol a Data (2023-2028) Addysg a Gwella Iechyd Cymru

[4] Offeryn hunanasesu sydd â'r bwriad o amlygu cryfderau a gwendidau sefydliadol mewn rhaglen deallusrwydd busnes yw Model Aeddfedrwydd Deallusrwydd Busnes 'Byrddau Cynghori'. Mae'r model yn seiliedig ar bedwar cam aeddfedrwydd i wella galluoedd technoleg a dadansoddeg.

mewn asesiad aeddfedrwydd allanol o’i ddull o ran sut mae’n cipio ac yn dadansoddi data. Disgwylir i’r asesiad allanol hwn gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2024. Felly, bydd yn bwysig bod AaGIC yn adnewyddu ei gynlluniau i adlewyrchu canlyniadau ei asesiadau aeddfedrwydd (**Argymhelliad 1**).

## Mae AaGIC wedi sicrhau bod gan ddeallusrwydd busnes broffil digonol gyda’r Bwrdd

21 Mae gan AaGIC Aelod Annibynnol penodol sydd â chyfrifoldeb arweiniol am Ddata a Digidol. Mae bod â’r pwyslais penodol hwn yn dangos y flaenoriaeth y mae’r Bwrdd wedi ei rhoi i’r maes hwn, ac mae’n cydnabod ei bwysigrwydd wrth gefnogi’r broses o gyflawni nodau strategol AaGIC. Yn ein barn ni, mae’r pwyslais penodol hwn wedi rhoi cyfle i’r Bwrdd gael golwg briodol ar gynnydd yn y maes hwn ac i godi unrhyw faterion yn y cyfarfodydd llywodraethu mwy ffurfiol ac o amgylch y cyfarfodydd hynny.

## Mae Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru yn gatalydd ar gyfer pwyslais AaGIC ar ddeallusrwydd busnes

22 Mae gan AaGIC swyddogaeth ganolog wrth gyflawni agweddau ar Gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru. Roedd y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i AaGIC ‘weithio gyda phartneriaid i wella ansawdd, argaeledd a mynediad at ddata’r gweithlu, a bydd yn datblygu methodoleg a model data gweithlu cenedlaethol i asesu faint o weithlu sydd ar gael, a’r galw am weithlu’. Mae’r cynllun wedi helpu i ysgogi camau gwella a blaenoriaeth gydunol yn AaGIC gan gynnwys cryfhau sut mae’n gweithio gyda phartneriaid i wella ansawdd data a datblygu model i asesu faint o weithlu sydd ar gael, a’r galw am weithlu i’w ddefnyddio ledled Cymru. Yn rhan o’i ddull, mae AaGIC wedi lansio porth digidol yn ddiweddar gan sicrhau bod data y gweithlu gofal eilaidd ar gael i bartneriaid allanol.

23 Roedd agweddau ar y gwaith sy’n ofynnol gan Gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu eisoes wedi eu dechrau gan AaGIC neu roeddent yn rhan o’i gynlluniau a oedd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae bod â’r pwyslais penodol hwn ar ddata y gweithlu wedi cyflymu pwyslais AaGIC ar wella ansawdd data y gweithlu ac wrth ddatblygu offer a’r gallu i gael gafael ar ddata i’w helpu i gyflawni ei gyfrifoldebau deallusrwydd busnes strategol.

## Mae AaGIC yn gwella ei ddealltwriaeth o’i ofynion deallusrwydd busnes

24 Mae AaGIC yn parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o anghenion deallusrwydd busnes. Ar hyn o bryd, mae’r tîm Data a Digidol wrthi’n gweithio gyda’r gwahanol gyfarwyddiaethau mewnol i nodi eu gofynion data a deallusrwydd busnes. Mae AaGIC hefyd yn casglu anghenion deallusrwydd busnes ehangach GIG Cymru

drwy amrywiaeth o ddulliau eraill. Er enghraifft, mae’n ymgysylltu â thimau gweithlu cyrff iechyd GIG Cymru ar eu gofynion data gweithlu Cynllun Tymor Canolig Integredig penodol. Mae AaGIC hefyd yn ennill dealltwriaeth ehangach o anghenion deallusrwydd busnes presennol ac yn y dyfodol o’i waith ymgynghorydd digidol allanol ar yr asesiad aeddfedrwydd data fel y disgrifir gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Bydd hyn yn helpu i hwyluso gwell gwaith cynllunio strategol.

## Mae AaGIC wedi buddsoddi mewn digidol a data, fodd bynnag, mae prosiectau digidol cyfalaf sy’n disgwyl penderfyniadau yn parhau i fod yn risg

25 Mae AaGIC wedi dweud wrthym ei fod wedi cynyddu ei fuddsoddiad mewn Digidol a Data yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2023–24, mae cyllideb AaGIC ar gyfer Digidol a Data yn 8.5% o gyfanswm ei wariant ar wasanaethau corfforaethol (hy ac eithrio cyllidebau comisiynu addysg). O ran cyfanswm gwariant AaGIC, mae Digidol a Data yn cyfrif am oddeutu 1.5% o gyfanswm ei gyllideb.

26 Mae AaGIC wedi dweud, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol, y bydd Digidol a Data yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o ran adnoddau. Er gwaethaf yr ymrwymiad hwn, mae’r tîm Digidol a Data yn bryderus am eu gallu i gyflawni pob cais am wasanaeth yn ystod y flwyddyn yn 2024–25. Er mwyn helpu i reoli’r broses hon, mae’r tîm wrthi’n datblygu meini prawf blaenoriaethu i’w galluogi i ganolbwyntio ar y ceisiadau am wasanaeth pwysicaf.

27 Cyllideb cyfalaf dewisol bach sydd gan AaGIC, ac felly mae’n gofyn am gyllid ychwanegol oddi wrth Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf untro penodol. Nid yw’r achos busnes ar gyfer un prosiect cyfalaf digidol strategol o’r fath, sef y ‘Platfform Sengl’,[5] wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru eto. Mae hyn yn risg i’r amserlenni arfaethedig o ran cyflawni uchelgeisiau deallusrwydd busnes AaGIC, os na chaiff ei gymeradwyo.

## Mae recriwtio a chadw setiau sgiliau digidol a data penodol AaGIC yn parhau i fod yn risg

28 Mae AaGIC wedi cadarnhau bod lefelau staffio presennol wedi bod yn ddigonol i gyflawni ei raglen waith deallusrwydd busnes presennol. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith, roedd nifer bach o swyddi deallusrwydd busnes nad oedd wedi eu llenwi. Er mai ychydig ydynt o ran nifer, mae risg, os na fydd y swyddi hyn yn cael eu llenwi, y bydd effaith negyddol posibl ar amserlenni rhai elfennau o’r cynlluniau gwaith deallusrwydd busnes.

[5] Bydd achos busnes y Platfform Sengl yn cyfuno dros 12 o gymwysiadau allweddol a chronfa ddata AaGIC yn un seilwaith digidol sengl. Gyda'r nod o wella ansawdd, rheoli mynediad, a moderneiddio cymwysiadau sy’n heneiddio na fydd yn cael eu cefnogi mwyach.

29 Mae AaGIC yn sicrhau gwelededd strategol a bod y gyfarwyddiaeth yn gallu gweld y risgiau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw. Mae hyn wedi ei gynnwys ar y gofrestr risgiau strategol presennol ac yn y risgiau penodol a adroddwyd i'r Grŵp Arweinyddiaeth Trawsnewid Digidol. Fodd bynnag, cymhlethir y risg hon ymhellach gan yr wybodaeth unigryw a freiniwyd mewn rhai aelodau o'r tîm Data a Dadansoddeg. Mae AaGIC yn cymryd camau i liniaru'r risgiau hyn drwy ddatblygu gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer llawer o feysydd gweithgarwch deallusrwydd busnes. Mae hefyd yn datblygu dulliau rhannu gwybodaeth ac yn ceisio meithrin gallu ar draws y tîm Digidol a Data ehangach. Fodd bynnag, mae angen i AaGIC ymgymryd â gwaith ychwanegol er mwyn nodi swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes ac yna datblygu cynlluniau olyniaeth clir ar gyfer y mathau hyn o swyddogaethau. (**Argymhelliad 2**).

## Defnyddio deallusrwydd busnes

30 Wrth ymgymryd â'n gwaith yn AaGIC, gwnaethom ystyried i ba raddau y mae'n defnyddio gwybodaeth fusnes yn effeithiol i gefnogi gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau. Canfuom fod **defnydd AaGIC o ddeallusrwydd busnes yn datblygu. Mae'n canolbwyntio ar y graddau y mae data gweithlu GIG Cymru ar gael, eu hansawdd a pha mor hygyrch ydynt, gyda'r bwriad o wella'r broses o wneud penderfyniadau sy'n cael eu sbarduno gan ddata**.

### Mae defnydd AaGIC o ddeallusrwydd busnes i lywio gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau yn datblygu ac yn dod yn fwy hygyrch

31 Yn ystod y llynedd, mae AaGIC wedi sbarduno gwelliant sylweddol o ran delweddu data busnes allweddol a'r graddau y maent ar gael. Mae AaGIC wedi datblygu cyfres o ddangosfyrddau deallusrwydd Power BI sy'n darparu data i ddefnyddwyr a gyflwynir mewn ffordd a ddylai gefnogi gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau yn well. Mae llawer o'r dangosfyrddau hyn hefyd wedi eu cynnwys ym mhorth digidol AaGIC a lansiwyd yn ddiweddar. Bydd y porth hwn yn rhan o'i 'arsyllfa', gan ddarparu un porth lle gall rhanddeiliaid gael gafael ar ddata a deallusrwydd allweddol. Mae rhai enghreifftiau o'r gyfres newydd o ddangosfyrddau y mae AaGIC wedi eu lansio dros y misoedd diwethaf yn cynnwys:

- dangosfwrdd ymddeol a dychwelyd—sy'n cynnwys data ar y gweithlu sy'n dychwelyd ar ôl ymddeol ar draws proffesiynau iechyd a fesul proffil oedran.
- dangosfwrdd addysg a hyfforddiant—sy'n cynnwys data ar leoedd hyfforddi, cyfraddau athreulio a llenwi.
- dangosfwrdd gofal eilaidd—sy'n cynnwys data ar gyfansoddiad gweithlu'r bwrdd iechyd ac unrhyw symudiadau gweithlu rhwng y byrddau iechyd.

- Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC—mae'r dangosfwrdd yn dal i ddatblygu ac fe'i cyflwynwyd i Fwrdd mis Tachwedd fel Cynnyrch Sylfaenol Hyfyw. Mae'n cynnwys data meintiol ac ansoddol ar berfformiad o'u cymharu â nodau, amcanion a chyflawniadau Cynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC.

32 Yn ogystal â'r dangosfyrddau a nodir uchod, mae AaGIC wrthi'n datblygu dadansoddiad o'r 'llif addysg i gyflogaeth'. Pan fydd wedi ei gwblhau, bydd yn rhoi data a gwybodaeth i AaGIC ar y daith hyfforddi hyd at gyflogaeth. Bwriad AaGIC yw defnyddio'r data hyn i'w helpu i fynegi'r effaith y mae'n ei chael ar GIG Cymru ac economi ehangach Cymru.

33 Mae Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i AaGIC ddatblygu modelu gweithlu'r GIG cadarn i hwyluso gwaith cynllunio tymor canolig i dymor hwy. Mae AaGIC yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr allanol i ddatblygu model i asesu faint o weithlu'r GIG sydd ar gael, a'r galw am y gweithlu hwnnw. Ar hyn o bryd, mae AaGIC yn treialu'r dull modelu hwn gyda'r bwriad o'i ddefnyddio i lywio datblygiad y Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu yn 2024.

34 Mae AaGIC wedi datblygu'r dangosfyrddau gyda defnyddwyr a/neu wedi cynnal profion derbyn gan ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'r dangosfyrddau yn dal i fod yn gymharol newydd ac felly mae eu heffaith yn anhysbys i raddau helaeth. Mae'n bwysig bod AaGIC yn deall yn glir yr effaith y mae ei gyfres newydd o ddata a modelau gweledol yn ei chael ar broses gwneud penderfyniadau rhanddeiliaid mewnol ac allanol (**Argymhelliad 4)**.

35 Mae AaGIC yn datblygu dewisiadau'n briodol er mwyn ehangu'r gallu i gael gafael ar ei ddeallusrwydd busnes. Er bod AaGIC wedi cynllunio llawer o'r dangosfyrddau data ar gyfer cefnogi rhanddeiliaid allanol, mae rhai dangosfyrddau, megis y dangosfwrdd Addysg/Hyfforddiant, na ddefnyddir ac eithrio gan randdeiliaid mewnol. Un o'r heriau, a amlygwyd gan AaGIC, ynghylch ehangu mynediad i rai dangosfyrddau, yw'r risgiau posibl o ran cyfrinachedd masnachol y sefydliadau hynny a gynrychiolir yn y data. Fodd bynnag, rydym yn deall bod gwaith yn parhau i fynd i'r afael â hyn.

## Mae AaGIC yn gweithio'n rhagweithiol i wella ansawdd y data, fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn risg

36 Un o feysydd pwyslais AaGIC dros y flwyddyn ddiwethaf, a cham gweithredu allweddol i Gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu, yw gwella ansawdd y data y mae'n eu derbyn gan randdeiliaid ehangach. Mae wedi gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chyrff iechyd eraill i ddatblygu a chymhwyso safonau data'r gweithlu mewn ffordd debyg i'r rhai a ddefnyddir eisoes ar gyfer data a chodio clinigol. Er mai ar y cam peilot y mae'r gwaith hwn, dylai arwain at welliannau yn ansawdd data gweithlu'r GIG, pan fydd AaGIC yn cyflwyno hyn yn ehangach.

37 I gefnogi ei bwyslais ar wella ansawdd data, mae pob un o ddangosfyrddau deallusrwydd busnes AaGIC hefyd yn cynnwys adran ar ansawdd y data. Enghraifft dda o hyn yw dangosfwrdd perfformiad Cynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC a ddatblygwyd yn ddiweddar. Mae'n cynnwys adran ansawdd data sy'n graddio gan ddefnyddio meini prawf penodol ac yn nodi a yw ansawdd y data yn safon aur, arian neu efydd. Mae'r dull hwn yn dal i ddatblygu, ond mae ei gynrychiolaeth graffigol o ansawdd y data yn galluogi defnyddwyr i gael golwg ar faterion a rhoi sicrwydd.

38 Mae AaGIC hefyd yn ymgymryd â gwaith gyda Sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu a chymhwyso set o safonau data drwy eiriadur data cyffredin. Dylai'r gwaith hwn, ynghyd â chymalau cyflwyno data penodol newydd sydd wedi eu hymgorffori mewn contractau comisiynu, wella ansawdd ac amseroldeb data dros amser.

39 Er gwaethaf y gwelliannau cadarnhaol hyn sy'n dod i'r amlwg ar adeg ein hadolygiad, mae AaGIC yn parhau i adrodd bod ansawdd ac amseroldeb data yn parhau i fod yn risg allweddol. Rydym yn cydnabod y bydd camau i wella ansawdd y data y mae AaGIC yn eu derbyn yn cymryd amser i ymwreiddio a dod yn effeithiol. Fodd bynnag, yn ein barn ni, pan fo hyder mewnol ac allanol yn ansawdd y data yn isel, mae effaith negyddol uniongyrchol ar y graddau y defnyddir y data hyn wedyn i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

### Mae AaGIC yn buddsoddi mewn datblygu galluoedd data ar gyfer defnyddwyr data

40 Mae AaGIC yn cydnabod bod llythrennedd data rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn parhau i fod yn un o'i heriau deallusrwydd busnes. Er mwyn gwella'r sefyllfa hon, sefydlodd AaGIC rwydwaith mewnol o 50 o hyrwyddwyr digidol. Mae'r rhwydwaith yn cwrdd bob mis, gan osod tasgu i'w aelodau ddarparu cefnogaeth a rhaeadru dysg a gwybodaeth ddigidol yn eu cyfarwyddiaethau.

41 Cynhaliodd tîm data a digidol AaGIC sawl gweithdy gydag uwch-staff AaGIC i wella'r ddealltwriaeth o ddulliau dadansoddi data. Mae'r tîm yn datblygu cynnyrch hyfforddi llythrennedd data ar gyfer y staff, ond ar adeg ein hadolygiad yr oeddynt yn dechrau cyflwyno'r rhain. Er y bydd y camau hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu data a chapasiti digidol yn staff AaGIC, ar gam gweithredu cynnar y maent ac felly bydd angen gwerthuso eu heffaith.

## Trefniadau llywodraethu a monitro deallusrwydd busnes

42 Wrth ymgymryd â'n gwaith yn AaGIC, gwnaethom ystyried i ba raddau y mae ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol a cherrig milltir a thargedau clir ar gyfer goruchwylio a monitro'r cynnydd ar amcanion ac uchelgeisiau deallusrwydd busnes. Canfuom, **er bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer goruchwylio**

**mentrau deallusrwydd busnes yn briodol, y gellid eu cryfhau ymhellach drwy adrodd mwy cyflawn ar gynnydd a sicrhau bod y mentrau yn diwallu anghenion y defnyddwyr.**

## Mae gan AaGIC drefniadau llywodraethu priodol ar gyfer deallusrwydd busnes

43 Mae gan AaGIC drefniadau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio, monitro a rhannu cynnydd o amgylch ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes. Y Grŵp Arweinyddiaeth Trawsnewid Digidol yw'r prif fforwm llywodraethu ar gyfer deallusrwydd busnes. Mae gan y grŵp arweinyddiaeth AaGIC hwn gynrychiolaeth fewnol eang ac mae'n derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar ddata a digidol. Mae'r grŵp yn goruchwylio'n briodol gynnydd lefel uchel cynlluniau tîm unigol, gan gynnwys dadansoddeg data, ac mae'n helpu i reoli risgiau allweddol, megis ailflaenoriaethu diweddar y cynllun trawsnewid digidol. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i'r Tîm Gweithredol ar feysydd risg a phryder allweddol ac ar y cynnydd cyffredinol.

44 Yn rhan o'i sesiynau datblygu bwrdd sy'n mynd rhagddynt gydag Aelodau Annibynnol, AaGIC wedi cynnal sawl sesiwn sy'n canolbwyntio ar bynciau digidol a data penodol. Ein dealltwriaeth ni yw y bydd y mathau hyn o sesiynau datblygu bwrdd â phwyslais penodol yn parhau, yn ôl yr angen. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys datblygu'r strategaeth digidol a data, yr achos busnes dros Blatfform Sengl a datblygu dangosfwrdd perfformiad Cynllun Tymor Canolig Integredig newydd. Roedd y sesiynau anffurfiol hyn yn ffordd ddefnyddiol i Aelodau Annibynnol gael dealltwriaeth fanylach o weithgarwch data a digidol penodol. Maent yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag aelodau mewn datblygu data a digidol, gan alluogi swyddogion i dderbyn her ac arsylwadau yn ogystal â'r grwpiau llywodraethu mwy ffurfiol.

## Mae adroddiadau AaGIC ynghylch deallusrwydd busnes yn rhesymol, fodd bynnag, gellid eu gwella ymhellach

45 Mae adroddiadau cyfredol AaGIC ynghylch deallusrwydd busnes yn seiliedig i raddau helaeth ar y cynnydd o'i gymharu â cherrig milltir a chamau gweithredu ar adegau penodol. Ar adeg ein hadolygiad, adroddodd AaGIC fod gan bob cam gweithredu statws gwyrdd ar y raddfa Coch Oren Gwyrdd ar gyfer Data a Digidol yn ystod Chwarteri 1 a 2 (sy'n ymgorffori deallusrwydd busnes). Canfu ein gwaith fod AaGIC yn gwneud cynnydd rhesymol i wella ei ddeallusrwydd busnes, fodd bynnag, nid yw adrodd corfforaethol yn rhoi darlun digon clir o'r hyn sy'n weddill i'w gyflawni fel mater o drefn. Er nad yw'r adroddiadau cyfredol yn anghywir, mae perygl y gallai rhai pobl sy'n cael yr adroddiadau cynnydd eu camddeall nhw. Rydym yn cydnabod nad yr adroddiadau hyn yw'r unig ffynhonnell sicrwydd, fodd bynnag, drwy nodi graddfa'r gwaith sy'n weddill hefyd, bydd hyn yn rhoi darlun llawer mwy cyflawn o'r cynnydd i'r darllenydd **(Argymhelliad 3)**. Yn ogystal â hyn, mae Cynllun Digidol yn Gyntaf hefyd yn cynnwys tri metrig penodol.

46 Ar adeg ein hadolygiad, cawsom wybod bod tîm Digidol a Data AaGIC yn datblygu cyfres ehangach o fesurau/metrigau. Er nad oedd ein hadolygiad yn edrych yn fanwl ar y metrigau newydd hyn, ein safbwynt ni yw y dylai cael set briodol o fetrigau sy'n canolbwyntio ar effaith, ochr yn ochr â'i gerrig milltir a'i gamau gweithredu presennol, alluogi AaGIC i ddeall yn well y cynnydd y mae'n ei wneud o ran cyflawni ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes.

## Mae dull AaGIC o ddysgu gwersi yn dal i ddatblygu

47 Mae gan AaGIC ddull clir o gasglu gwybodaeth a'i defnyddio i ddysgu gwersi ar gyfer ei gyflawniadau deallusrwydd busnes. Yn ddiweddar mae wedi lansio arolwg boddhad defnyddwyr syml ac yn ddiweddar mae wedi cyflwyno dau 'borth' dysgu ar ôl chwe wythnos a chwe mis ar gyfer adolygu ei ddangosfyrddau. O ystyried lansiad cymharol ddiweddar rhai o'i ddangosfyrddau deallusrwydd busnes, nid oedd yr un o'i byrth adolygu chwe mis wedi eu cyrraedd ar adeg ein gwaith. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, mae AaGIC wedi lansio nifer o gynhyrchion deallusrwydd busnes, ac mae rhagor sydd wedi eu cynllunio cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, bydd yn bwysig bod ei byrth dysgu arfaethedig yn manteisio ar y cyfle i gasglu gwersi ehangach ond eu bod hefyd yn canolbwyntio ar ddeall y gwahaniaeth y mae'r deallusrwydd busnes wedi ei wneud i'r defnyddwyr (**Argymhelliad 4**).

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosiad 2 isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau/Arddangosiadau | • Gwnaethom arsylwi cyfarfod y Bwrdd ar 30 Tachwedd 2023.<br>• Dangoswyd nifer o dangosfyrddau data Power BI Deallusrwydd Busnes allweddol. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, megis:<br>• Strategaeth Ddigidol 2023–28<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26<br>• Cynllun Galluogi Digidol yn Gyntaf<br>• Fframwaith Perfformiad—Mawrth 2023<br>• Papurau gweithredol sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y Strategaeth Ddigidol<br>• Papurau/cyflwyniadau Sesiwn Datblygu Bwrdd Perthnasol<br>• Cyfarwyddiadau i'r Bwrdd ar Ddigidol, sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ar ddeallusrwydd busnes<br>• Yr wybodaeth ddiweddaraf a chofnodion gan y Grŵp Arweinyddiaeth Trawsnewid Digidol<br>• Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd camau gweithredu Cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu<br>• Papurau a cherrig milltir ar gyfer y gwaith aeddfedrwydd data allanol<br>• Papurau sy'n dangos gwaith partneriaeth ar ddatblygu deallusrwydd busnes<br>• Papurau ategol ar ansawdd data |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Cyfarwyddwr Datblygu Digidol<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol—Data a Dadansoddeg y Gweithlu<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol—Perfformiad a Chynllunio<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid<br>• Y Pennaeth Dadansoddeg<br>• Dadansoddwr Data Uwch<br>• Y Pennaeth Addysg, Comisiynu ac Ansawdd<br>• Aelod Annibynnol—Arweinydd digidol<br>• Aelod Annibynnol—Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim ar gyfer Cynllunio Gweithlu Strategol |

# Atodiad 2

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Arddangosyn 3: cwestiynau a meini prawf archwilio**

Gofynnodd yr adolygiad cyffredinol 'i ba raddau y mae gan AaGIC ddull effeithiol ar gyfer ei ddeallusrwydd busnes?' Cynhwysir y cwestiynau creiddiol yn y tabl isod.

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 2.1 A yw'r dull o gynllunio deallusrwydd busnes yn effeithiol? | 2.1.1 I ba raddau y mae dealltwriaeth glir o anghenion a gofynion deallusrwydd busnes ar gyfer y sefydliad dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy?<br>2.1.2 A oes gweledigaeth glir ac uchelgais ar gyfer sut y bydd deallusrwydd busnes yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei nodau?<br>2.1.3 A oes strategaethau a chynlluniau cadarn ar waith sy'n mynegi sut y bydd yr uchelgeisiau deallusrwydd busnes yn cael eu cyflawni? | • Mae gofynion ac uchelgeisiau deallusrwydd busnes wedi eu mynegi'n glir a'u gosod yng nghyd-destun amcanion strategol y sefydliad.<br>• Mae deallusrwydd busnes wedi ei integreiddio'n llawn yn fframwaith digidol strategol ehangach.<br>• Mae gofynion deallusrwydd busnes sefydliadol clir megis ansawdd data, delweddu, adrodd a dadansoddeg.<br>• Mae dull y sefydliad o ymdrin â deallusrwydd busnes yn gyson â safonau deallusrwydd busnes cydnabyddedig.<br>• Mae buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni gwelliannau mewn deallusrwydd busnes (cyfalaf a refeniw) wedi ei nodi a'i gymeradwyo. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | 2.1.4 A yw'r cynlluniau deallusrwydd busnes wedi cael adnoddau digonol (cyfalaf a refeniw)? | • Mae anghenion deallusrwydd busnes ar gyfer y dyfodol wedi eu diffinio ac mae cynllun ar gyfer sut y bydd y deallusrwydd hwn yn cael ei gasglu.<br>• Mae'r sefydliad yn deall ei faterion/risgiau deallusrwydd busnes. Yn cyd-fynd â hyn, mae dealltwriaeth ddatblygedig o ansawdd data ar draws y dirwedd deallusrwydd busnes ac mae cynlluniau gwella ar waith pan fo ansawdd y data yn is na'r safonau y cytunwyd arnynt.<br>• Mae gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o'i aeddfedrwydd o ran deallusrwydd busnes ac mae cynlluniau clir ar waith ar gyfer gwella.<br>• Mae capasiti a chymhwysedd digonol yn y sefydliad i gyflawni ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes (ee mae gan aelodau'r tîm Deallusrwydd Busnes ardystiadau deallusrwydd busnes megis CBIP). Mae cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion capasiti a gallu.<br>• Mae deallusrwydd busnes yn cefnogi perfformiad sefydliadol yn llawn ac fe'i defnyddir i wella gwaith mesur ac i adrodd mewn cynlluniau strategol megis y Cynllun Tymor Canolig Integredig. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| 2.2 A yw'r dull o ddefnyddio deallusrwydd busnes yn effeithiol? | 2.2.1 A yw'r defnydd presennol o ddeallusrwydd busnes yn cefnogi gwaith cynllunio a'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol?<br>2.2.2 A yw delweddu dadansoddiad deallusrwydd busnes yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau?<br>2.2.3 A oes dealltwriaeth glir o ran lle mae bylchau mewn deallusrwydd busnes ac effaith hyn ar y broses o wneud penderfyniadau?<br>2.3.4 I ba raddau y mae'r sefydliad yn gweithio gyda phartneriaid i wella ei ddeallusrwydd busnes? | • Mae gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol yn gallu cael gafael ar ddeallusrwydd busnes yn briodol.<br>• Mae deallusrwydd busnes a rennir â phartneriaid a rhanddeiliaid yn gadarn ac yn amserol.<br>• Mae gan wneuthurwyr penderfyniadau y sgiliau cywir i allu defnyddio gwybodaeth deallusrwydd busnes yn effeithiol i lywio eu penderfyniadau.<br>• Mae catalog y cytunwyd arno o'r deallusrwydd busnes cyfredol ac mae unrhyw fylchau wedi eu hadnabod.<br>• Mae deallusrwydd busnes yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion cyfredol ac anghenion y tymor hwy (>deng mlynedd).<br>• Defnyddir gwybodaeth busnes y gweithlu i lywio cynlluniau strategol y sefydliad (Cynllun Tymor Canolig Integredig, E&TP).<br>• Mae gweithio effeithiol gyda phartneriaid i sicrhau bod data trydydd parti yn gadarn ac yn amserol.<br>• Mae deallusrwydd busnes yn cael ei ddelweddu mewn ffordd sy'n hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau (megis tueddiadau, rhagamcaniadau, effeithiau).<br>• Mae cynllun clir sy'n mapio pensaernïaeth system deallusrwydd busnes cyfredol ac yn y dyfodol a'r offer sydd eu hangen i gefnogi uchelgeisiau deallusrwydd busnes y sefydliad. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae dull cadarn o weithio gyda phartneriaid i wella deallusrwydd busnes, yn benodol pan fo partneriaid yn rheolwyr data. |
| 2.3 A yw'r dull o fonitro ac adolygu cynnydd o ran deallusrwydd busnes yn effeithiol? | 2.3.1 A yw'r trefniadau llywodraethu i oruchwylio a monitro cynnydd ar amcanion ac uchelgeisiau deallusrwydd busnes yn addas i'w diben?<br>2.3.2 A oes cerrig milltir a mesurau clir sy'n hwyluso'r broses o fonitro'r cynnydd a wneir o ran deallusrwydd busnes?<br>2.3.3 A yw'r sefydliad wedi datblygu dull cadarn ar gyfer gwella a dysgu parhaus ac a yw'n cymhwyso hyn i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei uchelgeisiau deallusrwydd busnes? | • Mae'r trefniadau llywodraethu ynghylch deallusrwydd busnes wedi eu cynllunio'n effeithiol ar gyfer cyflawni eu cyfrifoldebau goruchwylio.<br>• Cylch Gorchwyl ar gyfer y strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd priodol sy'n gyfrifol am oruchwylio deallusrwydd busnes y mae ganddynt swyddogaethau a chyfrifoldeb sydd wedi eu diffinio'n glir.<br>• Mae proses ddatblygedig ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau sy'n gysylltiedig â deallusrwydd busnes i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.<br>• Mae'r llwybr a'r cynnydd ar gynlluniau sy'n ymwneud â deallusrwydd busnes yn cael eu craffu'n rheolaidd a chytunir ar gamau gweithredu i gadw cynnydd ar y trywydd iawn.<br>• Mae cerrig milltir a mesurau clir sydd wedi eu sefydlu i helpu'r rhai sydd â chyfrifoldebau goruchwylio a chyflawni i benderfynu ar y cynnydd a wneir tuag at yr uchelgeisiau deallusrwydd busnes. |

# Atodiad 3

## Ymateb y sefydliad i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: ymateb y sefydliad**

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Adnewyddu Trywydd Digidol AaGIC**<br>A1 Dylai AaGIC adolygu Cenhadaeth 4 ei Drywydd Digidol yng ngoleuni unrhyw ganfyddiadau a nodir gan yr asesiad 'ecosystem ddata' annibynnol. Nod yr adolygiad yw asesu ei gynnydd cymharol ers ei hunanasesiad aeddfedrwydd diwethaf a sicrhau bod y camau yn ei Drywydd Digidol yn dal i fod yn addas i'w diben. | Bydd gan AaGIC asesiadau annibynnol wedi eu cwblhau gan Gartner a fydd yn gallu adolygu a chynhyrchu dadansoddiad mewnol o'r bwlch ac asesiad pellach yn seiliedig ar hynny o ran cenhadaeth, cyflawniadau ac aliniad. Yna gellir cynhyrchu trywydd data a dadansoddeg newydd (Cenhadaeth 4) os oes angen, a diwygiadau i'r strategaeth a wnaed. | Mawrth 2024 | Craig Barker<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol: Data a Dadansoddeg |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Nodi swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes a datblygu cynlluniau olyniaeth**<br>A2 O ystyried y risgiau sylweddol o ran recriwtio a chadw swyddi digidol:<br>a) Dylai AaGIC nodi ei swyddogaethau sy'n allweddol i fusnes, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd eu hangen i gyflawni Cenhadaeth 4 ei Strategaeth Digidol a Data.<br>b) Pan fo **A2a** wedi ei gwblhau, dylai AaGIC ddatblygu prosesau cynllunio olyniaeth clir ar gyfer y swyddogaethau hyn er mwyn lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli gwybodaeth sy'n allweddol i fusnes a allai effeithio ar gyflymder y gweithgareddau deallusrwydd busnes a gynllunnir. | Cynhelir adolygiad i nodi swyddi allweddol gan gydnabod bod cymysgeddau sgiliau i'w hystyried hefyd. Bydd y rhain bob yn ail â swyddogaethau a dylid eu cwblhau ar ôl cwblhau A1.<br><br>Bydd yn sicrhau bod cynlluniau olyniaeth yn gyson â threfniadau gweithredu safonol a chynlluniau sylfaen gwybodaeth. | Ebrill 2024 | Craig Barker<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol: Data a Dadansoddeg |

| Argymhelliad | Ymateb y sefydliad | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella adroddiadau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd**<br>A3 Dylai adroddiadau AaGIC sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran menter deallusrwydd busnes a data ddarparu cyfrif mwy cynhwysfawr o'r cynnydd, gan nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni, yr hyn sydd ar ôl i'w gwblhau o hyd ac unrhyw effeithiau tebygol ar yr amserlenni gwreiddiol. | Bydd hyn yn cyd-fynd â'n cynlluniau ar gyfer ein cais Swyddfa Rheoli Prosiectau newydd yn Data a Dadansoddeg a bydd yn cynnwys gwireddu ac adolygu manteision. | Ebrill 2024 | Craig Barker<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol: Data a Dadansoddeg |
| **Yr effaith sy'n deillio o fuddsoddiad mewn deallusrwydd busnes**<br>A4 Dylai AaGIC ddatblygu dull o werthuso'r gwahaniaeth y mae'r deallusrwydd busnes yn ei wneud i randdeiliaid mewnol ac allanol. Bydd hyn yn galluogi AaGIC i benderfynu a yw ei fuddsoddiad mewn deallusrwydd busnes yn darparu gwerth am arian ac i sicrhau bod unrhyw ddysg yn cael ei defnyddio i wella cyflawniadau deallusrwydd busnes ymhellach. | Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori yn fanylach yn ein gweithdrefn gweithredu safonol. | Mawrth 2024 | Craig Barker<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Digidol: Data a Dadansoddeg |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.